



Diwygio'r Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog 24, 25 a 27 – Gorchmynion Adran 116C

Diben

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad, gan gynnwys unrhyw gynigion i ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.
2. Mae'r adroddiad yn argymhell gwelliannau i Reol Sefydlog 27 i gyflwyno darpariaethau penodol ar gyfer Gorchmynion Adran 116C, ynghyd â diwygiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 24 a 25. Mae'r newidiadau y cytunodd y Pwyllgor Busnes arnynt i'w gweld yn Atodiad A, ac mae'r cynnig ar gyfer Rheol Sefydlog newydd ddiwygiedig i'w weld yn Atodiad B.

Y cefndir

3. Ar 16 Ionawr, 27 Chwefror, 17 Ebrill, 3 Gorffennaf a 17 Gorffennaf 2018 bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried opsiynau ar gyfer cynnwys gweithdrefn newydd yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer cymeradwyo Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor a wneir o dan adran 116C o'r Ddeddf (adran 116C). Cyflwynwyd yr adran hon i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gan Ddeddf Cymru 2017, ac

mae'n gwneud darpariaeth i gyflwyno trethi datganoledig newydd, neu i'r darpariaethau sy'n ymwneud â threthi datganoledig presennol gael eu haddasu, drwy gyfrwng Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, gael eu cymeradwyo gan ddau Dŷ'r Senedd a'r Cynulliad.

4. Ar 27 Chwefror 2018, cytunodd Rheolwyr Busnes i ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar opsiynau posibl ar gyfer cyflwyno gweithdrefn i gymeradwyo Gorchymynion adran 116C i Reolau Sefydlog y Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol ar Opsiwn C, a gyflwynwyd yn dilyn trafodaethau rhwng swyddogion Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes a'r Llywodraeth, fel y dull gweithredu i'w ddilyn. Roedd yr opsiwn hwn yn darparu ar gyfer proses bwrpasol Rheolau Sefydlog yn Rheol Sefydlog 27 (y weithdrefn bresennol ar gyfer is-ddeddfwriaeth), ochr yn ochr â chytundeb 'protocol' rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Cymru ynghylch y wybodaeth sydd i'w rhoi i'r Cynulliad at ddibenion ymgynghori a chraffu, cyn gosod Gorchymyn drafft yn ffurfiol.

5. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, roedd y Pwyllgor Cyllid yn fodlon ar Opsiwn C, ond gofynnodd a fyddai Rheol Sefydlog annibynnol yn well ar gyfer Gorchymynion adran 116C, yn hytrach na'u hintegreiddio i mewn i Reol Sefydlog 27.

6. Roedd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol hefyd o'r farn ei bod yn werth ystyried creu Rheol Sefydlog 25A newydd i ymdrin â Gorchymynion adran 116C, gan gredu y byddai hyn yn cyd-fynd yn well â strwythur presennol y Rheolau Sefydlog ac yn cynnig ffordd gliriach, fwy taclus a hygyrch o fwrw ymlaen. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 17 Ebrill 2018, gofynnodd y Pwyllgor Busnes i'r Ysgrifenyddiaeth gyflwyno'r ddau opsiwn i'w trafod.

7. Ar 3 Gorffennaf ac 17 Gorffennaf 2018, bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod y cynigion drafft, naill ai ar gyfer gweithdrefn annibynnol a nodir mewn Rheol Sefydlog 25A newydd, neu weithdrefn wedi'i hintegreiddio i mewn i Reol Sefydlog 27. Dim ond o ran eu strwythur a'u dull drafftio yr oedd yr

opsiynau'n wahanol: roedd y weithdrefn y darparwyd ar ei chyfer yn union yr un fath. Ar ôl ymgynghori â'r grwpiau, cytunodd y Pwyllgor mewn egwyddor ar y newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 27 ar 17 Gorffennaf 2018, gyda phenderfyniad ar yr opsiwn o integreiddio'r weithdrefn i mewn i Reol Sefydlog 27 ar ôl pleidlais yn y Pwyllgor Busnes.

Y weithdrefn arfaethedig

8. Mae Adran 116C ond yn ei gwneud yn ofynnol i Orchymyn adran 116C drafft gael ei osod gerbron dau Dŷ'r Senedd a'r Cynulliad a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddynt. Nododd y cynigion broses Rheol Sefydlog ar gyfer craffu a chytuno ar Orchymyn adran 116C drafft ar ôl iddo gael ei osod gan Lywodraeth Cymru. Caiff y broses honno ei hategu gan ymrwymadau ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ynghylch y wybodaeth a roddir i'r Cynulliad cyn i'r weithdrefn ffurfiol gael ei sbarduno.

9. Cytunwyd y byddai ymrwymadau Llywodraeth Cymru yn cael eu nodi yn yr adroddiad hwn i'w cyflwyno i'r Cynulliad ochr yn ochr â'r newidiadau arfaethedig yn y Rheol Sefydlog. Bydd yr ymrwymadau hyn yn gymwys i'r cyfnod cyn cyflwyno, pan fydd cytundeb ar wahân rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM hefyd ar waith.

10. Yr ymrwymadau a wneir gan Lywodraeth Cymru yw y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn gwneud y canlynol:

- cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ysgrifennu'n ffurfiol at Drysorlys EM ynghylch cynnig treth newydd;
- cynnal cyfarfod â Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol yn dilyn cyfarfod Cyd-Bwyllgor y Trysorlysoedd i ddarparu briff ar y sefyllfa ddiweddaraf, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo a'r pwyllgor am y cynnydd, a'u galluogi i ofyn cwestiynau a mynegi barn y Pwyllgor, gan barchu cyfrinachedd a pherthnasoedd rhynglywodraethol;

- gosod copi o unrhyw wybodaeth a roddir gan Weinidogion y DU i Senedd y DU cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddi gael ei rhoi i Lywodraeth Cymru; a
- gofyn am gopiâu o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad gan Drysorlys EM a'u gosod gerbron y Cynulliad.

11. Mae gweithdrefn arfaethedig y Rheol Sefydlog yn gyson â gweithdrefn bresennol y Cynulliad ar gyfer cymeradwyo offerynnau statudol drafft, wrth ddefnyddio rhannau perthnasol o'r Rheol Sefydlog 25 bresennol hefyd ar gyfer Gorchymynion adran 109 drafft.

12. Mae'r Pwyllgor Busnes yn nodi y bydd yn bwysig dilyn dull hyblyg o weithredu'r broses graffu ar gyfer Gorchymynion drafft o dan adran 116C ac, ar ôl profi'r weithdrefn ar gyfer y math arbennig hwn o offeryn statudol am y tro cyntaf, mae'n ymddangos yn debygol y bydd y Pwyllgor am adolygu ei heffeithiolrwydd.

13. Prif elfennau'r weithdrefn arfaethedig yw:

- cynnig gosod y Gorchymyn drafft yn unol â'r dull presennol yn Rheol Sefydlog 27 ar gyfer offerynnau statudol eraill, a chydag amserlen a nodir yn y Rheol Sefydlog ar gyfer offerynnau statudol eraill;
- yn ei gwneud yn ofynnol i aelod o'r llywodraeth osod memorandwm esboniadol, gyda'r gofynion yn seiliedig ar a) y rhai sy'n ofynnol ar gyfer cynnig ar gyfer Gorchymynion adran 109, a b) y gofynion yn Rheolau Sefydlog 26.6(iv) a 26.6(v) ar gyfer ymgynghori ar Fil arfaethedig y Cynulliad. Y bwriad yw y dylai'r memorandwm esboniadol fanylu ar unrhyw ymgynghoriad a wnaed ar lefel y DU neu gan Lywodraeth Cymru. Yn achos Gorchymynion adran 109, mae Rheol Sefydlog 25.14 yn ei gwneud yn ofynnol i'r memorandwm esboniadol esbonio unrhyw wahaniaeth rhwng Gorchymynion arfaethedig a'r Gorchymynion drafft terfynol a sut yr ystyriwyd argymhellion craffu pwyllgorau Seneddol. Yn niffyg Gorchymynion arfaethedig, yn lle hynny, disgwylid i'r memorandwm esboniadol esbonio unrhyw newid ers y cais cychwynol i Drysorlys EM i geisio cymhwysedd treth datganoledig;

- fel yn achos offerynnau statudol eraill, dylid cyfeirio'r Gorchymyn drafft yn awtomatig o dan Reolau Sefydlog i'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21, sef y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar hyn o bryd. Gall pwyllgorau heblaw am y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol adrodd ar y Gorchymyn drafft, ond rhaid iddynt roi gwybod i'r llywodraeth am eu bwriad i wneud hynny;
- cynnig bod cyfnod o 40 diwrnod rhwng gosod y Gorchymyn drafft a'r Cynulliad yn trafod y cynnig i'w gymeradwyo. Cynigir bod 40 diwrnod yn ddigonol i bwyllgorau wneud gwaith craffu ar Orchymyn adran 116C drafft ac i'r llywodraeth wedyn gyflwyno cynnig i'w gymeradwyo (byddai Rheol Sefydlog 27 fel arfer yn rhoi 20 diwrnod ar gyfer offeryn statudol drafft mewn amgylchiadau eraill). Ni ellir gwneud y Gorchymyn nes i'r Cynulliad gymeradwyo'r drafft, ac nid oes terfyn statudol ar yr amser sydd gan y Cynulliad i drafod y Gorchymyn drafft; a
- manylu ar ddarpariaethau gweithdrefnol sy'n gyson â gweithdrefn bresennol y Cynulliad ar gyfer cymeradwyo is-ddeddfwriaeth, h.y.:
 - esbonio'r broses o gyfrifo'r dyddiau at ddibenion y weithdrefn graffu;
 - nodi'r amgylchiadau pan ganiateir diwygio'r cynnig i gymeradwyo'r Gorchymyn drafft ai peidio;
 - ni ellir diwygio'r Gorchymyn drafft ei hun;
 - gall Gorchymyn drafft gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg; ac
 - mae Gorchymyn drafft yn methu pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu neu os na chaiff ei gymeradwyo ganddo.

Newidiadau canlyniadol eraill

14. Bydd angen diwygio Rheol Sefydlog 24.4 i egluro y bydd cyfeiriadau at Orchymynion arfaethedig ond yn gymwys i'r rhai o dan Reol Sefydlog 25. Cynigir hefyd ychwanegiad at Reol Sefydlog 25.1, i'w gwneud yn glir nad yw'r weithdrefn yn Rheol Sefydlog 27 ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn gymwys i Orchymynion adran 109.

Camau i'w cymryd

15. Cytunodd y Pwyllgor Busnes mewn egwyddor ar y newidiadau i Reol Sefydlog 27 ar 17 Gorffennaf 2018, a chytunodd yn ffurfiol arnynt ar 2 Hydref 2018. Gwahoddir y Cynulliad yn awr i gymeradwyo'r cynnig yn Atodiad B.

Atodiad A

RHEOL SEFYDLOG 27 - Is-ddeddfwriaeth (ac eithrio Is-ddeddfwriaeth sy'n Ddarostyngedig i Weithdrefn Cynulliad Arbennig)		
	Memoranda Esboniadol	
27.1	Rhaid cael Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Cynulliad a rhaid i'r Memorandwm Esboniadol gynnwys unrhyw Asesiad Effaith Reoliadol a baratoir mewn perthynas â'r offeryn.	Cadw'r Rheol Sefydlog
27.1A	Rhaid i unrhyw Femorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Cynulliad y mae paragraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn gymwys iddo gynnwys y datganiad a'r rhesymeg sy'n ofynnol gan baragraff 4(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.	Cadw'r Rheol Sefydlog
<u>27.1B</u>	<u>Yn achos unrhyw Orchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor i'w wneud o dan adran 116C o'r Ddeddf, rhaid i'r Memorandwm Esboniadol gynnwys y wybodaeth a ganlyn:</u>	Diwygio'r Rheol Sefydlog Mae'r geiriad arfaethedig yn seiliedig ar ofynion Rheol Sefydlog 25.27 (Cynigion ar

	<ul style="list-style-type: none"> (i) <u>yr effaith y byddai'r Gorchymyn drafft yn ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;</u> (ii) <u>esboniad ynghylch pam mae'r Gorchymyn drafft yn briodol;</u> (iii) <u>amcanion polisi datganoli'r dreth; a</u> (iv) <u>manylion unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd a chrynodeb o ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw.</u> 	<p>gyfer Gorchymyn gan Aelod, ac eithrio aelod o'r Llywodraeth), a'r gofynion yn Rheol Sefydlog 26.6(iv) a (v) ynghylch ymgynghori, y bwriad yw y byddai (iv) yn cynnwys unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd ar lefel y DU neu gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>DS: Yn achos Gorchymyn Adran 109, mae Rheol Sefydlog 25.14 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Memorandwm Esboniadol esbonio unrhyw wahaniaeth rhwng Gorchymyn arfaethedig a'r Gorchymyn drafft terfynol a sut yr ystyriwyd argymhellion craffu'r pwyllgorau Seneddol. Yn niffyg Gorchymyn arfaethedig, disgwylid i'r Memorandwm Esboniadol gynnwys esboniad o unrhyw newid ers y cais cychwynnol i Drysorlys EM/Senedd y DU i geisio cymhwysedd treth datganoledig.</p>
	<p>Cynnig ar gyfer Diddymu (Gweithdrefn Penderfyniad</p>	

	Negyddol)	
27.2	Yn achos unrhyw offeryn statudol: (i) sy'n agored i gael ei ddirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad; neu (ii) sy'n cael ei osod ar ffurf drafft ond nad yw'n gallu cael ei wneud os caiff y drafft ei anghymeradwyo, caiff y Cynulliad, heb fod yn hwyrach na 40 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod, benderfynu i ddirymu'r offeryn neu, yn ôl fel y digwydd, i anghymeradwyo'r drafft.	Cadw'r Rheol Sefydlog
27.3	Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig sydd i'w benderfynu o dan Reol Sefydlog 27.2.	Cadw'r Rheol Sefydlog
27.4	Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig sydd i'w benderfynu o dan Reol Sefydlog 27.2.	Cadw'r Rheol Sefydlog
	Cynnig ar gyfer Cymeradwyo (Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol)	
27.5	Yn achos unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Cynulliad nad yw, oni bai bod y Cynulliad yn ei gymeradwyo drwy gynnig, yn gallu: (i) cael ei wneud; (ii) dod i rym; neu	Cadw'r Rheol Sefydlog DS: Mae'r Rheol Sefydlog hon yn darparu ar gyfer cynnig i gymeradwyo cyflwyno Gorchymyn drafft adran 116C gan yr aelod o'r llywodraeth, a thrwy ymhlygiad felly, y

	<p>(iii) parhau mewn grym ar ôl y cyfnod a bennwyd yn y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i wneud yr offeryn, caiff unrhyw aelod o'r llywodraeth gyflwyno cynnig o dan Reol 27.5 i gymeradwyo'r offeryn neu'r offeryn drafft.</p>	<p>bydd yn aelod o'r llywodraeth sy'n gosod y Gorchmynion drafft hyn (fel sy'n wir am pob OS arall ac OS drafft ac eithrio Gorchmynion adran 109 a gwmpesir gan y weithdrefn ar wahân yn Rheol Sefydlog 25).</p>
27.6	<p>Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o dan Reol Sefydlog 27.5.</p>	<p>Cadw'r Rheol Sefydlog</p>
<u>27.6A</u>	<p><u>Yn achos Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor i'w wneud o dan adran 116C o'r Ddeddf, nid yw Rheol Sefydlog 27.6 yn gymwys, ond ni chaniateir cyflwyno gwelliant i gynnig o dan Reol Sefydlog 27.5 os na fyddai'n glir, ar sail penderfyniad gan y Cynulliad i gymeradwyo'r cynnig fel y'i diwygiwyd gan welliant o'r fath fod y Cynulliad wedi cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.</u></p>	<p>Rheol Sefydlog newydd</p> <p>Dylai'r geiriad arfaethedig adlewyrchu geiriad Rheol Sefydlog 25.17, ar gyfer Gorchmynion drafft o dan adran 109 o'r Ddeddf, i nodi paramedrau unrhyw welliant arfaethedig i gynnig y Llywodraeth i gymeradwyo'r Gorchymyn drafft.</p>
27.7	<p>Ni chaniateir ystyried cynnig o dan Reol Sefydlog 27.5 yn y cyfarfod llawn nes y bydd naill ai:</p> <p>(i) y pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a ragnodir yn Rheolau Sefydlog 21.2, 21.3 a 27.8A (lle y bo'n berthnasol) ac unrhyw bwyllgor arall, sydd wedi rhoi'r</p>	<p>Cadw'r Rheol Sefydlog</p>

	<p>hysbysiad a grybwyllir yn Rheol Sefydlog 27.8, wedi cyflwyno adroddiad ar yr offeryn neu'r drafft; neu</p> <p>(ii) 20 diwrnod wedi mynd heibio ers i'r offeryn neu'r offeryn drafft gael ei osod;</p> <p>pa un bynnag yw'r cyntaf.</p>	
27.7A	<p>Os bydd y deddfiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r offeryn statudol neu'r offeryn statudol drafft gael ei osod gerbron y Cynulliad yn pennu amserlen mewn perthynas ag ystyriaeth y Cynulliad o'r offeryn statudol neu'r offeryn statudol drafft, ni fydd Rheol Sefydlog 27.7 yn gymwys.</p>	Cadw'r Rheol Sefydlog
<u>27.7B</u>	<p><u>Yn achos Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor i'w wneud o dan adran 116C o'r Ddeddf, nid yw Rheol Sefydlog 27.7 yn gymwys, ac ni chaniateir ystyried cynnig o dan Reol Sefydlog 27.5 yn y Cyfarfod Llawn nes y bydd naill ai:</u></p> <p><u>(i) y pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a nodir yn Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3 ac unrhyw bwyllgor arall, sydd wedi rhoi'r hysbysiad a grybwyllir yn Rheol Sefydlog 27.8, wedi cyflwyno adroddiad ar yr offeryn drafft; neu</u></p> <p><u>(ii) 40 diwrnod wedi mynd heibio ers i'r offeryn neu'r</u></p>	<p>Rheol Sefydlog newydd</p> <p>Cynigir datgymhwyso Rheol Sefydlog 27.7 yn achos Gorchymyn drafft o dan adran 116C ac, yn lle hynny, gynnig cyfnod craffu hwy, sef 40 diwrnod yn achos Gorchymyn drafft o'r fath.</p>

	<p><u>offeryn drafft gael ei osod;</u></p> <p><u>pa un bynnag yw'r cyntaf.</u></p>	
27.8	<p>Os bydd unrhyw bwyllgor, ac eithrio'r pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a ragnodir yn Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3, yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar offeryn neu offeryn drafft y mae Rheol Sefydlog 27.5 yn gymwys iddo, rhaid iddo roi hysbysiad i'r llywodraeth ei fod yn bwriadu gwneud hynny heb fod yn hwyrach na saith diwrnod ar ôl i'r offeryn neu'r drafft gael ei osod.</p>	<p>Cadw'r Rheol Sefydlog</p>
27.8A	<p>Caiff y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19 ystyried unrhyw offeryn neu offeryn drafft sy'n ymwneud â threthi datganoledig y mae Rheol Sefydlog 27.5 yn gymwys iddo, yn ogystal â'r pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a nodir yn Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3. Nid yw Rheol Sefydlog 27.8 yn gymwys i'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19 mewn perthynas ag unrhyw gyfryw offeryn neu offeryn drafft.</p>	<p>Cadw'r Rheol Sefydlog</p> <p>DS: Nid yw'r Rheol Sefydlog hon yn berthnasol i'r weithdrefn Gorchymyn adran 116C arfaethedig – fe'i cyflwynwyd ym mis Mehefin 2017 i ganiatáu i unrhyw offeryn neu offeryn drafft sy'n ymwneud â threthi datganoledig (h.y. rheoliadau sy'n codi o ddeddfwriaeth trethi) gael eu trafod gan y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19 (y Pwyllgor Cyllid ar hyn o bryd), yn ogystal â'r pwyllgor sy'n gyfrifol am swyddogaethau o</p>

		<p>dan Reol Sefydlog 21 (y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar hyn o bryd). Mae hyn yn golygu y gall y Pwyllgor Cyllid drafod unrhyw Offeryn Statudol sy'n ymwneud â threthi datganoledig yn awtomatig, ond nad oes rhaid iddo wneud hynny, ond bod hyn yn dal i fod yn agored i unrhyw bwyllgor arall hefyd drafod yr offeryn, yn unol â'r broses sefydledig o dan Reol Sefydlog 27.8. Nid yw Gorchmynion adran 116C yn dod o dan y Rheol Sefydlog hon a, phe bai'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19 am gyflwyno adroddiad arnynt, byddai'n rhaid iddo ddefnyddio Rheol Sefydlog 27.8 fel unrhyw bwyllgor arall.</p>
27.9	<p>Os bydd unrhyw bwyllgor yn ystyried unrhyw offeryn neu offeryn drafft y mae Rheol Sefydlog 27.5 yn gymwys iddo, caiff yr aelod o'r llywodraeth a'i gosododd (neu aelod arall o'r llywodraeth a enwebir gan Brif Weinidog Cymru i fod yn gyfrifol amdano) fod yn bresennol yn y pwyllgor a chymryd</p>	<p>Cadw'r Rheol Sefydlog</p>

	rhan yn nhrefodion y pwyllgor sy'n ymwneud â'r offeryn neu'r drafft ond ni chaiff bleidleisio.	
	Offerynnau Statudol Drafft y mae paragraff 4 o Atodlen 7 i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn gymwys iddynt	
27.9A	Rhaid i aelod o'r llywodraeth osod unrhyw offeryn statudol drafft y mae paragraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn gymwys iddo.	Cadw'r Rheol Sefydlog
27.9B	<p>Os:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) cyflwynodd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21.3B adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 21.4B gydag argymhelliad mai'r weithdrefn gadarnhaol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer offeryn; a (ii) bod Gweinidogion Cymru o'r farn serch hynny mai'r weithdrefn briodol ar gyfer yr offeryn yw'r weithdrefn penderfyniad negyddol; <p>rhaid i'r Memorandwm Esboniadol a osodir yn unol â Rheol Sefydlog 27.1 esbonio pam nad yw Gweinidogion Cymru yn</p>	Cadw'r Rheol Sefydlog

	derbyn argymhelliad y pwyllgor.	
	Peidio â Diwygio Offerynnau	
27.10	Ni chaniateir diwygio offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae Rheolau Sefydlog 27.2 neu 27.5 yn gymwys iddo.	Cadw'r Rheol Sefydlog
	Tynnu Offerynnau yn ôl	
27.11	Caniateir i offeryn statudol neu offeryn statudol drafft a osodwyd gerbron y Cynulliad gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg gan yr aelod o'r llywodraeth sy'n gyfrifol am yr offeryn hwnnw.	Cadw'r Rheol Sefydlog
	Cyfrifo Dyddiau	
27.12	Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o ddyddiau at ddibenion Rheol Sefydlog 27, rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw amser pryd y bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod.	Cadw'r Rheol Sefydlog
	Cynigion Eraill mewn Perthynas ag Offerynnau neu Offerynnau Drafft	
27.13	Nid yw Rheolau Sefydlog 27.1 i 27.9 yn rhagfarnu hawl	Cadw'r Rheol Sefydlog

	unrhyw Aelod i gyflwyno unrhyw gynnig arall mewn perthynas ag offeryn neu offeryn drafft.	
	Cymhwyso'r Rheol Sefydlog at Is-ddeddfwriaeth Arall	
27.14	<p>Mae Rheolau Sefydlog 27.1 i 27.13 yn gymwys hefyd, gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol, i unrhyw is-ddeddfwriaeth arall (ac eithrio is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r Weithdrefn Cynulliad Arbennig o dan Reol Sefydlog 28) ar ffurf adroddiad, canllawiau, cod ymarfer neu ddogfen arall y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) cael eu gosod gerbron y Cynulliad; a (ii) bod yn ddarostyngedig i unrhyw fath o weithdrefn Cynulliad sydd â'r un effaith neu effaith gyfatebol i'r rhai a grybwyllir yn Rheolau Sefydlog 27.2 neu 27.5. 	Cadw'r Rheol Sefydlog

Diwygiadau Canlyniadol

RHEOL SEFYDLOG 24 - Diffiniad o Aelod sy'n Gyfrifol am Ddeddfwriaeth
Cyffredinol

24.1	Mae Rheol Sefydlog 24 yn rhoi diffiniad o “Aelod sy'n gyfrifol” am eitem o ddeddfwriaeth.	Cadw'r Rheol Sefydlog
24.2	Yn Rheol Sefydlog 24 ystyr "deddfwriaeth" yw: (i) Gorchmynion arfaethedig o dan Reol Sefydlog 25; neu (ii) Gorchmynion drafft o dan Reol Sefydlog 25; neu (iii) Biliau o dan Reol Sefydlog 26, a 26B.	Cadw'r Rheol Sefydlog
Deddfwriaeth y Llywodraeth		
24.3	Cyfeirir at ddeddfwriaeth a osodir neu a gyflwynir gan aelod o'r llywodraeth fel “deddfwriaeth llywodraeth”.	Cadw'r Rheol Sefydlog
24.4	Yr Aelod sy'n gyfrifol am eitem o ddeddfwriaeth llywodraeth yw: (i) yr aelod o'r llywodraeth a osododd neu a gyflwynodd y ddeddfwriaeth (neu, yn achos Gorchymyn drafft <u>o dan Reol Sefydlog 25</u> , yr aelod o'r llywodraeth a gyflwynodd y Gorchymyn arfaethedig y mae'r Gorchymyn drafft yn ymwneud ag ef);	Diwygio'r Rheol Sefydlog Cynigir gwelliant i gyfeirio at Orchmynion arfaethedig o dan Reol Sefydlog 25 yn unig.

	<p>(ii) aelod o'r llywodraeth sydd wedi'i awdurdodi gan Brif Weinidog Cymru;</p> <p>(iii) aelod o'r llywodraeth sydd wedi'i awdurdodi yn rhinwedd Rheolau Sefydlog 24.9 neu 24.16.</p>	
--	--	--

RHEOL SEFYDLOG 25 – Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor i'w gwneud o dan adran 109 o'r Ddeddf		
Cyffredinol		
25.1	<p>Mae Rheol Sefydlog 25 yn gymwys i Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor o fewn ystyr adran 109 o'r Ddeddf yn unig. <u>Nid yw Rheol Sefydlog 27 yn gymwys i Orchmynion o'r fath.</u></p>	<p>Diwygio'r Rheol Sefydlog</p> <p>Gwelliant arfaethedig yn unol â'r Rheol Sefydlog 25.A newydd arfaethedig, i wahaniaethu rhwng y weithdrefn ar gyfer datganoli cymhwysedd gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a'r weithdrefn ar gyfer is-ddeddfwriaeth arall a nodir yn Rheol Sefydlog 27.</p>

Atodiad B

RHEOL SEFYDLOG 27 – Is-ddeddfwriaeth (ac eithrio Is-ddeddfwriaeth sy'n Ddarostyngedig i Weithdrefn Cynulliad Arbennig)

Memoranda Esboniadol

27.1 Rhaid cael Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Cynulliad a rhaid i'r Memorandwm Esboniadol gynnwys unrhyw Asesiad Effaith Reoliadol a baratoir mewn perthynas â'r offeryn.

27.1A Rhaid i unrhyw Femorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Cynulliad y mae paragraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn gymwys iddo gynnwys y datganiad a'r rhesymeg sy'n ofynnol gan baragraff 4(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

27.1B Yn achos unrhyw Orchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor i'w wneud o dan adran 116C o'r Ddeddf, rhaid i'r Memorandwm Esboniadol ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

- (i) yr effaith y byddai'r Gorchymyn drafft yn ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;
- (ii) esboniad ynghylch pam mae'r Gorchymyn drafft yn briodol;
- (iii) amcanion polisi datganoli'r dreth; a
- (iv) manylion unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd a chrynodeb o ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw.

Cynnig ar gyfer Diddymu (Gweithdrefn Penderfyniad Negyddol)

27.2 Yn achos unrhyw offeryn statudol:

- (i) sy'n agored i gael ei ddirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad; neu

(ii) sy'n cael ei osod ar ffurf drafft ond nad yw'n gallu cael ei wneud os caiff y drafft ei anghymeradwyo, caiff y Cynulliad, heb fod yn hwyrach na 40 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod, benderfynu i ddirymu'r offeryn neu, yn ôl fel y digwydd, i anghymeradwyo'r drafft.

27.3 Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig sydd i'w benderfynu o dan Reol Sefydlog 27.2.

27.4 Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig sydd i'w benderfynu o dan Reol Sefydlog 27.2.

Cynnig ar gyfer Cymeradwyo (Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol)

27.5 Yn achos unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Cynulliad nad yw, oni bai bod y Cynulliad yn ei gymeradwyo drwy gynnig, yn gallu:

(i) cael ei wneud;

(ii) dod i rym; neu

(iii) parhau mewn grym ar ôl y cyfnod a bennwyd yn y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i wneud yr offeryn,

caiff unrhyw aelod o'r llywodraeth gyflwyno cynnig o dan Reol 27.5 i gymeradwyo'r offeryn neu'r offeryn drafft.

27.6 Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o dan Reol Sefydlog 27.5.

27.6A Yn achos Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor i'w wneud o dan adran 116C o'r Ddeddf, nid yw Rheol Sefydlog 27.6 yn gymwys, ond ni chaniateir cyflwyno gwelliant i gynnig o dan Reol Sefydlog 27.5 os na fyddai'n glir, ar sail penderfyniad gan y Cynulliad i gymeradwyo'r cynnig fel y'i diwygiwyd gan welliant o'r fath, fod y Cynulliad wedi cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

27.7 Ni chaniateir ystyried cynnig o dan Reol Sefydlog 27.5 yn y cyfarfod llawn nes y bydd naill ai:

- (i) y pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a ragnodir yn Rheolau Sefydlog 21.2, 21.3 a 27.8A (lle y bo'n berthnasol) ac unrhyw bwyllgor arall, sydd wedi rhoi'r hysbysiad a grybwyllir yn Rheol Sefydlog 27.8, wedi cyflwyno adroddiad ar yr offeryn neu'r drafft; neu
- (ii) 20 diwrnod wedi mynd heibio ers i'r offeryn neu'r offeryn drafft gael ei osod;

pa un bynnag yw'r cyntaf.

27.7A Os bydd y deddfiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r offeryn statudol neu'r offeryn statudol drafft gael ei osod gerbron y Cynulliad yn pennu amserlen mewn perthynas ag ystyriaeth y Cynulliad o'r offeryn statudol neu'r offeryn statudol drafft, ni fydd Rheol Sefydlog 27.7 yn gymwys.

27.7B Yn achos Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor i'w wneud o dan adran 116C o'r Ddeddf, nid yw Rheol Sefydlog 27.7 yn gymwys, ac ni chaniateir ystyried cynnig o dan Reol Sefydlog 27.5 yn y Cyfarfod Llawn nes y bydd naill ai:

- (i) y pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a nodir yn Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3 ac unrhyw bwyllgor arall, sydd wedi rhoi'r hysbysiad a grybwyllir yn Rheol Sefydlog 27.8, wedi cyflwyno adroddiad ar yr offeryn drafft; neu
- (ii) 40 diwrnod wedi mynd heibio ers i'r offeryn neu'r offeryn drafft gael ei osod;

pa un bynnag yw'r cyntaf.

27.8 Os bydd unrhyw bwyllgor, ac eithrio'r pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a ragnodir yn Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3, yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar offeryn neu offeryn drafft y mae Rheol Sefydlog 27.5 yn gymwys iddo, rhaid iddo roi hysbysiad i'r llywodraeth ei fod yn bwriadu gwneud hynny heb fod yn hwyrach na saith diwrnod ar ôl i'r offeryn neu'r drafft gael ei osod.

27.8A Caiff y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19 ystyried unrhyw offeryn neu offeryn drafft sy'n ymwneud â threthi datganoledig y mae Rheol Sefydlog 27.5 yn gymwys iddo, yn ogystal â'r pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a nodir yn Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3. Nid yw Rheol Sefydlog 27.8 yn gymwys i'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19 mewn perthynas ag unrhyw gyfryw offeryn neu offeryn drafft.

27.9 Os bydd unrhyw bwyllgor yn ystyried unrhyw offeryn neu offeryn drafft y mae Rheol Sefydlog 27.5 yn gymwys iddo, caiff yr aelod o'r llywodraeth a'i gosododd (neu aelod arall o'r llywodraeth a enwebir gan Brif Weinidog Cymru i fod yn gyfrifol amdano) fod yn bresennol yn y pwyllgor a chymryd rhan yn nhrefnion y pwyllgor sy'n ymwneud â'r offeryn neu'r drafft ond ni chaiff bleidleisio.

Offerynnau Statudol Drafft y mae paragraff 4 o Atodlen 7 i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

27.9A Rhaid i aelod o'r llywodraeth osod unrhyw offeryn statudol drafft y mae paragraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn gymwys iddo.

27.9B Os:

- (i) cyflwynodd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21.3B adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 21.4B gydag argymhelliad mai'r weithdrefn gadarnhaol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer offeryn; a
- (ii) bod Gweinidogion Cymru o'r farn serch hynny mai'r weithdrefn briodol ar gyfer yr offeryn yn weithdrefn penderfyniad negyddol;

rhaid i'r Memorandwm Esboniadol a osodir yn unol â Rheol Sefydlog 27.1 esbonio pam nad yw Gweinidogion Cymru yn derbyn argymhelliad y pwyllgor.

Peidio â Diwygio Offerynnau

27.10 Ni chaniateir diwygio offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae Rheolau Sefydlog 27.2 neu 27.5 yn gymwys iddo.

Tynnu Offerynnau yn ôl

27.11 Caniateir i offeryn statudol neu offeryn statudol drafft a osodwyd gerbron y Cynulliad gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg gan yr aelod o'r llywodraeth sy'n gyfrifol am yr offeryn hwnnw.

Cyfrifo Dyddiau

27.12 Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o ddyddiau at ddibenion Rheol Sefydlog 27, rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw amser pryd y bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod.

Cynigion Eraill mewn Perthynas ag Offerynnau neu Offerynnau Drafft

27.13 Nid yw Rheolau Sefydlog 27.1 i 27.9 yn rhagfarnu hawl unrhyw Aelod i gyflwyno unrhyw gynnig arall mewn perthynas ag offeryn neu offeryn drafft.

Cymhwyso'r Rheol Sefydlog at Is-ddeddfwriaeth Arall

27.14 Mae Rheolau Sefydlog 27.1 i 27.13 yn gymwys hefyd, gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol, i unrhyw is-ddeddfwriaeth arall (ac eithrio is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r Weithdrefn Cynulliad Arbennig o dan Reol Sefydlog 28) ar ffurf adroddiad, canllawiau, cod ymarfer neu ddogfen arall y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddynt:

- (i) gael eu gosod gerbron y Cynulliad; a

- (ii) bod yn ddarostyngedig i unrhyw fath o weithdrefn y Cynulliad sydd â'r un effaith neu effaith gyfatebol i'r rhai a grybwyllir yn Rheolau Sefydlog 27.2 neu 27.5.

RHEOL SEFYDLOG 24 – Diffiniad o Aelod sy'n Gyfrifol am Ddeddfwriaeth

Cyffredinol

24.1 Mae Rheol Sefydlog 24 yn rhoi diffiniad o “Aelod sy’n gyfrifol” am eitem o ddeddfwriaeth.

24.2 Yn Rheol Sefydlog 24 ystyr "deddfwriaeth" yw:

- (i) Gorchmynion arfaethedig o dan Reol Sefydlog 25; neu
- (ii) Gorchmynion drafft o dan Reol Sefydlog 25; neu
- (iii) Biliau o dan Reol Sefydlog 26, a 26B.

Deddfwriaeth y Llywodraeth

24.3 Cyfeirir at ddeddfwriaeth a osodir neu a gyflwynir gan aelod o'r Llywodraeth fel “deddfwriaeth llywodraeth”.

24.4 Yr Aelod sy'n gyfrifol am eitem o ddeddfwriaeth llywodraeth yw:

- (i) yr aelod o'r llywodraeth a osododd neu a gyflwynodd y ddeddfwriaeth (neu, yn achos Gorchymyn drafft o dan Reol Sefydlog 25, yr aelod o'r llywodraeth a gyflwynodd y Gorchymyn arfaethedig y mae'r Gorchymyn drafft yn ymwneud ag ef);
- (ii) aelod o'r llywodraeth sydd wedi'i awdurdodi gan Brif Weinidog Cymru; neu
- (iii) aelod o'r llywodraeth sydd wedi'i awdurdodi yn rhinwedd Rheolau Sefydlog 24.9 neu 24.16.

RHEOL SEFYDLOG 25 – Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor i'w gwneud o dan adran 109 o'r Ddeddf

Cyffredinol

- 25.1 Mae Rheol Sefydlog 25 yn gymwys i Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor o fewn ystyr adran 109 o'r Ddeddf yn unig. Nid yw Rheol Sefydlog 27 yn gymwys i Orchmynion o'r fath.